# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

## HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD

## DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

Ar 26 Ebrill 2021, yn dilyn cyfnod ymgynghori, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hysbysiad statudol o'i gynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli, Teras Greenfield, Gogledd Corneli, CF33 4LW i ben ac Ysgol Gynradd Afon y Felin, Heol y Parc, Gogledd Corneli, CF33 4PA a sefydlu ysgol gynradd gymunedol gyfrwng Saesneg newydd, i gael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar dir oddi ar Gibbons Way ym Mhlas Morlais, i ddod i rym o 1 Medi 2023 ac i wneud newid rheoledig i Ysgol Y Ferch o'r Sgêr yn ffurf ehangiad i ddod i rym o 2 Medi 2024.

Ar hyn o bryd caiff yr ysgolion yr effeithir arnynt eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig yn ystod cyfnod yr hysbysiad cyhoeddus. Ar 22 Mehefin 2021, bu'r Cabinet yn ystyried yn ofalus y cynnig a gyhoeddwyd yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r cynnig.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon bod y cynnig hwn yn gadarn mewn termau addysgol, ariannol a strategol.

**Crynodeb**

Yn gryno, cymeradwyodd y Cabinet y cynnig gan eu bod yn credu y bydd yn gwneud y canlynol:

- Cynnal safon yr addysg a ddarperir
- Sicrhau bod lleoedd disgyblion wedi eu lleoli'n addas
- Cynnig effeithlonrwydd wrth gyllido addysg

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad gyda golwg ar yr ffactorau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

**Ansawdd a Safonau Addysg**

Mae Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o leiaf o ran addysg, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Bydd y cynnig hwn yn ateb y galw am leoedd i ddisgyblion o fewn yr ardal.

**Cyllido addysg a goblygiadau ariannol eraill**

Byddai'r cynnig hwn yn dileu'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £525,450 o ran Ysgol Gynradd Afon y Felin a £419,030 o ran Ysgol Gynradd Corneli, y mae'r ddwy ohonynt ar hyn o bryd yng nghategori cyflwr C+ (gwael – yn dangos diffygion mawr a / neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd). Byddai hefyd yn dileu ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £569,254 o ran Ysgol Y Ferch o'r Sgêr ac yn darparu adeilad newydd wedi ei ehangu perthyn i'r unfed ganrif ar hugain yn lle adeilad adfeiliedig yr ysgol bresennol a adeiladwyd ym 1955, sydd ar hyn o bryd yng nghategori cyflwr C+ (gwael – yn dangos diffygion mawr a / neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd).

*Mae'r penderfyniad hwn yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau galw i mewn fel y'u heglurir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu adolygu penderfyniadau, a wnaed gan y Cabinet ond sydd eto i gael eu gweithredu. Os bydd y penderfyniad yn cael ei alw i mewn, bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.*